# Cyfundeb Dwyrain Morgannwg (*Twitter*: @CyfDwyMor)
# Rhifyn 4: Mehefin 2023

## CyfUNdeb

Am wledd! Cafwyd bore llawn hwyl ac asbri, o foli ac addoli, yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd ar Fore Sul 12 Mawrth 2023. Elin Maher, un o Arweinwyr Mynydd Seion, Casnewydd, wnaeth gynnig y cnewyllyn o ail-gydio yn y syniad o Sul y Cyfundeb, a thrwy ymdrechion Delwyn Siôn, Siân Meinir a'r Parchedigion Owain Llŷr Evans a Dylan Rhys Parry esblygodd y syniad yn **CyfUNdeb**.








Daeth dros 80 o aelodau eglwysi'r Cyfundeb ynghyd a chafwyd mwyhad mawr yn cyd-addoli, cyd-greu, cyd-drafod a chymdeithasu.




Cafwyd sesiwn amgen gyda'r plant a'r bobl ifanc - gwyddom am Siân Meinir fel cantores opera ond llwyddodd i greu ac arwain grŵp rapio newydd i'r Cyfundeb! Da oedd bod yno.



## **Cwrdd Chwarter y Gwanwyn** **(erthygl gan yr Ysgrifennydd y Cyfundeb a ymddangosodd yn *Y Tyst* 11 Mai 2023)**

Mynychodd aelodau naw o eglwysi'r Cyfundeb Gwrdd Chwarter cyntaf 2023 dan gadeiryddiaeth Dr Hefin Jones yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd Nos Fercher 22 Mawrth 2023. Gwenda Lewis ac Arfon Jones o eglwys Ebeneser, Caerdydd oedd yng ngofal y defosiwn agoriadol ac offrymwyd y weddi goffa gan y Parchedig Owain Llŷr Evans. Wedi i'r cadeirydd ddiolch i eglwys Ebeneser am y defosiwn ac am y lluniaeth a baratowyd, aed ymlaen i drafod materion busnes y Cyfundeb; cyn gwneud hynny, fodd bynnag, manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch i'r gweithgor fu yng ngofal trefniadau CyfUNdeb, sef Sul y Cyfundeb arbrofol a hynod lwyddiannus a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Cyflwynodd yr ysgrifennydd adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror, gan gynnwys rhaglen y Cyfundeb am y flwyddyn, ac argymhellion Panel y Gronfa Nawdd ar geisiadau am nawdd a dderbyniwyd oddi wrth dair o'r eglwysi. Rhoddodd adroddiad hefyd o'r sefyllfa ariannol, diweddariad o ymgeisyddiaeth Siân Meinir i gael ei chydnabod fel Pregethwr Cynorthwyol i'r Undeb, ac adroddiad ar yr ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar. Eitem olaf yr adroddiad oedd cyflwyno argymhelliad y Pwyllgor Gwaith i enwebu'r Parchedig Owain Llŷr Evans fel Darpar Lywydd yr Undeb. Derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol, ynghyd â'r argymhelliad i gefnogi enwebiad Owain Llŷr fel Darpar Lywydd.




Neilltuwyd gweddill y Cwrdd Chwarter i dderbyn dau gyflwyniad ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021, y naill ar sefyllfa'r iaith Gymraeg a'r llall ar ganlyniadau crefydd y Cymry. Cyflwynodd Manon Wynn Davies, Ymchwilydd y Comisiynydd Iaith, brif ganlyniadau'r cyfrifiad ar y Gymraeg. Wrth gydnabod y teimlad o siom bod lleihad pellach yn nifer a chanran y siaradwyr ar draws Cymru ers cyfrifiad 2011, ymateb y Comisiynydd Iaith yw nad oes angen anobeithio'n llwyr ynghylch y dyfodol. Eisoes mae nifer dda o ddatblygiadau gwych ar droed sy'n cynnig amodau ffafriol i hyrwyddo'r iaith, ond nid ydynt yn ddigonol ynddynt eu hunain; oherwydd hynny mae'n bwysig defnyddio'r canlyniadau fel ysgogiad i annog mwy o ymdrech i gefnogi'r iaith. Bydd cyflwyno Mesur Addysg Gymraeg hefyd yn sicr o roi hwb pellach i'r ymdrechion hyn. Dangosodd nad oedd pob rhan o Gymru wedi profi cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg gan fod pocedi lleol yng

Nghaerdydd, er enghraifft, wedi gweld cynnydd calonogol iawn dros y ddeng mlynedd ddiwethaf.

Pan ddaeth canlyniadau cychwynnol cyflwr crefydd a ffydd y Cymry yng Nghyfrifiad 2021 i olau dydd, fe arweiniodd at gyfres o benawdau'n proffwydo tranc ein hetifeddiaeth Gristnogol. Yr hyn a barodd gryn sioc i lawer oedd deall mai yng Nghymru'n unig, o blith gwledydd y Deyrnas Unedig, mae canran uwch o'r boblogaeth bellach yn eu disgrifio'u hunain fel personau digrefydd, a bod gostyngiad o 14 % dros ddeng mlynedd ymhlith y rhai oedd yn eu hystyried eu hunain yn Gristnogion. Dadlennol, felly, oedd gwrando ar ddehongliad treiddgar Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, o arwyddocâd data'r cyfrifiad. Ar ôl iddo gnoi cil dros yr ystadegau cyfaddefodd nad oedd y ffigurau hyn wedi ei synnu o gwbl, gan fod y niferoedd yng nghyfrifiad 2011 yn afrealistig o uchel tra bod yr atebion yn 2021 yn llawer mwy gonest.



Yn ail hanner ei gyflwyniad, canolbwyntiodd Gethin Rhys ar ganfyddiadau gwaith ymchwil pellach a gynhaliwyd yn sgil y cyfrifiad gan y felin drafod *Theos* a holodd beth a olygai'r atebwyr wrth eu disgrifio'u hunain fel personau digrefydd. Prif gasgliad *Theos* oedd bod tair prif garfan, gyda phob un yn cynrychioli tua thraean o'r sampl a ddefnyddiwyd ganddynt:

A. Rhai sy'n anffyddwyr rhonc ac yn elyniaethus i grefydd;

B. Rhai nad ydynt yn gredinwyr eu hunain ond yn gweld eglwysi'n gwneud gwaith da o fewn y gymuned;

C. Rhai sy'n dweud eu bod nhw'n credu ond ddim yn arddel perthynas gyda chrefydd gyfundrefnol.

Gan fod dwy ran o dair o'r rhai 'digrefydd' hyn yn perthyn naill ai i garfan B neu C, teimla Gethin Rhys nad yw canlyniadau'r cyfrifiad mor anobeithiol ag y maent yn ymddangos ar yr olwg gyntaf.

Casgliad y ddau siaradwr fel ei gilydd, felly, oedd fod llawer o waith i'w wneud eto i gryfhau'r iaith a'r ffydd Gristnogol yng Nghymru, ond nad yw'r sefyllfa mor ddigalon â'r hyn a awgrymir wrth edrych ar yr ystadegau moel yn unig. Tynnodd y ddau sylw hefyd at y ffaith nad yw holl ganlyniadau'r cyfrifiad wedi eu cyhoeddi eto ac felly does dim modd croesgyfeirio, er enghraifft, rhwng ystadegau'r iaith a chrefydd. Bydd yn ddiddorol cael gwybod a yw'r Cymry Cymraeg yn debycach o fod yn fwy crefyddol na'r Cymry di-Gymraeg. Roedd pawb yn gytûn ein bod wedi derbyn cyfraniadau diddorol a gwerthfawr, fydd yn sbardun dros ymateb yn fwy cadarnhaol i'r ddau gyfrifiad.

## Sardis Pontypridd



Trist yw gorfod nodi bod yr achos yn Sardis, Pontypridd bellach wedi dod i ben. Adeiladwyd y capel ym 1834 ac fe'i ehangwyd ym 1852. Bu 14 o weinidogion yn gwasanaethu dros y blynyddoedd, yn eu plith y Parchedig Dyfnallt Owen (1905-10). Ers y 1960au cafwyd mewnlifiad o Gymry Cymraeg i'r ardal i hyrwyddo addysg Gymraeg ac yn ei sgil fe gynyddodd yr aelodaeth a nifer y plant yn yr Ysgol Sul. Wedi ymddeoliad gweinidog olaf Sardis, y Parchedig Hywel Lewis yn 2010, cymerwyd y cyfrifoldebau a'r gwasanaethau gan yr aelodau ynghyd â chymorth gweinidogion yr ardal. Erbyn hyn mae ystod o amgylchiadau wedi gorfodi'r eglwys i gymryd penderfyniad anorfod i roi'r capel ar werth a dwyn yr achos i ben. Cynhaliwyd yr Oedfa Ddatgorffori yn y festri ar 5 Mawrth 2023 o dan arweiniad y Parchedig Allan Pickard. Ar ôl ymgymryd o Swper yr Arglwydd aethpwyd i mewn i'r capel am y tro diwethaf a chyhoeddwyd i'r Cyfamod Eglwysig a wnaethpwyd wrth sefydlu'r eglwys bron 200-mlynedd yn ôl ddod i ben.



## Eglwys Bethel, Penarth

***Cymorth Cristnogol:*** Ar Sul cyntaf Rhagfyr, cynhaliwyd oedfa garolau ym Methel ar y cyd gyda Chymorth Cristnogol. Diolch i Neville Evans am drefnu'r oedfa ar ffurf Naw Llith a Charol a braf oedd cael croesawu aelodau o amryw eglwys ym Mhenarth i gymryd rhan. Casglwyd £267 i goffrau Cymorth Cristnogol. Cychwynnodd Ciniawau Grawys blynyddol Cymorth Cristnogol ar Ddydd Gwener, 24 Chwefror 2023 gydag Eglwys Bethel a thrigolion Elfed Avenue yn gyfrifol am ginio ddydd Gwener, 3 Mawrth 2023. Penderfynwyd anfon yr elw i Gronfa Trychineb Daeargryn Twrci a Syria.

***Cymdeithasol:*** Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd Pnawn Hwyl gyda'r plant a'u rhieni pryd fu Kevin, ein gweinidog, yn rhannu stori'r Nadolig gyda'r plant cyn mwynhau te parti a rhodd Nadolig. Ar 26 Ionawr 2023, trefnwyd Pnawn Cymdeithasol, gyda sgwrs, paned a chwis Dydd Dwynwen. Cynhaliwyd Noson Grempog ym mis Chwefror a diolch i Emma Berry a Siân Meinir ac eraill am drefnu. Codwyd ychydig dros £200 at Gronfa Trychineb Daeargryn Twrci a Syria.

***Te i'r Digartref:*** Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae Bethel wedi cymryd tro i baratoi te i'r digartref yn Eglwys y Tabernacl, Yr Ais. Brynhawn Ddydd Calan bu rhai o'r aelodau yn paratoi'r te a diolch i bawb gyfrannodd.

Dros gyfnod y Nadolig, cynhaliwyd Oedfa Noswyl Nadolig am 11.00 yr hwyr ac Oedfa Fore Nadolig am 9.30, sef gwasanaeth yr ofalaeth (Tabernacl, Y Barri a Bethel). Bu Oedfa Fore Calan yn Sant Ffransis, Y Barri a diolch i Kevin Davies am ei wasanaeth ac am ei waith a'i ofal trwy gydol y flwyddyn. Canol Ionawr, trefnwyd Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol a hynny yn Eglwys Sant Pedr, Heol Sili dan adain Cytûn Penarth. Ein gweinidog, Kevin Davies fu'n gyfrifol am y gwasanaeth olaf ar Sul, 22 Ionawr 2023.




Cofiwn gyda thristwch am ddau o aelodau Bethel a fu farw yn ystod y cyfnod. Bu farw Howard Evans ym mis Tachwedd ar ôl brwydr ddewr. Roedd Howard yn aelod ffyddlon o'r achos gyda gwên barod a sgwrs ffraeth a chydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu. Talwyd y gymwynas olaf iddo Fore Iau, 1 Rhagfyr 2023. Bu farw Moyra Owen ddechrau Chwefror a hynny ar ôl cystudd gymharol fyr. Bu ffyddlondeb Moyra i Fethel ac i'r Cwrdd Chwarter am flynyddoedd maith yn ddi-brisadwy a'i pharodrwydd i ymgymryd ag unrhyw dasg yn arwydd o'i chariad a'i hymroddiad i'r achos. Eto, cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu. Talwyd y gymwynas olaf iddi Fore Llun, 27 Chwefror 2023.

## Eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Cyfarchion o Fethlehem, Gwaelod-y-garth, er mai cilwg yn ôl ar weithgareddau'r gaeaf a gyflwynir fan hyn! Cydnabyddwn gymwynas pawb â ni am eu cwmni tra'n arwain oedfa yn ein plith dros y misoedd diwethaf, a diolch i Delwyn Siôn am ei ofal trosom fel Arweinydd. 'Roddodd tymor y Nadolig gyfle arbennig i'r aelodaeth, yn blant, ieuenctid ac oedolion i gymeryd at yr awenau.

Cynhaliwyd oedfaon ar Sul Adferiad (diwedd Mis Hydref) a Sul yr Urdd/ Sul Diogelu (diwedd Mis Tachwedd), gyda'r olaf yn cyd-daro â chyfnod Cwpan y Byd yn Quatar. Braidd yn annisgwyl oedd derbyn cyfarchion gan Jâms Powys oddi yno yn trafod ei brofiadau o ddilyn tîm peldroed Cymru dros y byd, a phwysigrwydd yr Urdd i'w fagwraeth a'i werthoedd mewn bywyd. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd ar Sul Diogelu i ddangos ffilm fer wedi ei pharatoi gan y Panel Diogelu Cydenwadol. Tebyg y cofiwch am saga Caniadaeth y Cysegr – wel o'r diwedd, fe lwyddwyd (ar 6 Tachwedd 2022) i recordio y plant a'r oedolion yn cyflwyno'r emynau



dewisedig, a braf oedd derbyn y neges yma ar ran y cwmni: “*Gyda’n cymanfaoedd yn prinhau a’r canu 4 llais yn dirywio, ‘roedd hi’n braf clywed canu SATB cadarn a chyhyrog gan gantorion Bethlehem. ‘Roedd y plant hefyd yn hyfryd o swynol a bywiog*.” Mawr ein diolch i Eilir Owen Griffiths a Delyth Evans am yr holl waith paratoi er sicrhau ymateb o’r fath. (*Lluniau:* y rihyrsal olaf ac wedi’r recordio!)

Parhaodd y bwrlwm hwnnw i Fis Rhagfyr a chynhaliwyd oedfa “Naw Llith a Charol”, ac oedfa Bore’r Nadolig fel rhan o’r dathliadau. Bu i gyflwyniad o stori Nadolig yr Ysgol Sul gael ei ragflaenu y tro hwn gan theatr animeiddio (ar ffilm) o waith rhai o ieuenctid y capel (gyda chymorth ambell oedolyn). A do, bu Siôn Corn ar ymweliad a’r Festri wedi’r cyflwyniadau!



Mae Bethlehem a bwyd yn ddau air sy’n plethu’n gysurus â’i gilydd, o gofio am y gefnogaeth fisol a gynigir i Fanc Bwyd Caerdydd, ond daw cyfle ambell waith i swpera fel aelodau ymhlith ein gilydd. Cynhaliwyd noson o greu addurniadau a chanu Carolau, a’r cyfan er budd elusen leol sydd yn cael ei chefnogi, sef Cymdeithas Alzheimer Cymru.

Ynghanol Mis Ionawr 2023 cynhaliwyd y Plygain, gan ymestyn, am y tro cyntaf ers y cyfnod clo, y cyfle i gantorion gwadd i ymuno yn y canu. Bu’r Cwrdd Merched yn brysur yn ystod y misoedd a aeth heibio, gan drefnu ymweliad a Chanolfan y BBC yn y Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd ym Mis Hydref, sgwrs (“O Valpariso i Vladivostok”) gan Arwel Ellis Owen ym Mis Tachwedd, awgrymiadau am ddanteithion ar gyfer y Nadolig yng nghwmni Marian Ifans ym Mis Rhagfyr, “Llyfrau” yng nghwmni Shân Osborne ym Mis Ionawr, a chyflwyniad gan y Parchedig R Alun Evans i gofnodi canrif o ddarlledu yng Nghymru ym Mis Chwefror.

Llwyddwyd yn ogystal i ymweld ag ambell fwyty rhwng yr holl weithgarwch a nodir! Cafwyd oedfa raenus dan eu gofal ym Mis Chwefror pan fu i dair o'r criw ddewis eu hoff emynau.

Bu colledion yn rhengoedd yr aelodaeth cyn y Nadolig (Viona Jones, gynt o Bentyrch, a Branwen Mathias o'r Eglwys Newydd) a bu bedyddiadau, yr efeilliaid Casi a Dafydd, a Betsi a Sara. Cofleidiwn y teuluoedd yn eu trallod, ac ymfalchïwn yng ngenedigaeth y criw o blant a gyflwynwyd i'n gofal. Cynhwyswyd Bethlehem ar wefan Undeb yr Annibynwyr fel rhan o'r gyfres “Eglwys y Mis” yn ystod 2022, ac fe dderbyniwyd tystysgrif Gwobr Efydd “Eco Church” ar ddechrau 2023. Cyhoeddwyd dau rifyn o “Gair bach Bethlehem” ers rhannu'r cylchlythyr diwethaf, a chewch fwy am yr hyn sy'n digwydd yng nghysgod y Garth ynddynt. Fe'i ceir ar safle gwe'r Capel, www.bethlehem.cymru 'Rydym hefyd ar Twitter @gwebethlehem.
Mae croeso i chwi gysylltu â'r Ysgrifennydd, Rhodri-Gwynn Jones, am fwy o fanylion rhodrigj@btinternet.com

## Eglwys Ebeneser Caerdydd


***Dathlu'r Geni Gwyrthiol:*** Mawr fu'r llawenydd dros dymor yr Adfent gyda nifer o weithgareddau arbennig yn dathlu geni'r Meseia Iesu. Diolch i bawb fu'n helpu i baratoi ar gyfer y gwasanaethau ac i'r rhai hynny fu'n cymryd rhan mewn amryfal ffyrdd. Dechreuodd



yr oedfaon tymhorol gydag oedfa ar y testun ‘Brenin’ ar Fore Sul 11 Rhagfyr 2022. Ystyriwyd y Brenin Herod ac yna'r Brenin Iesu gan weld y gwahaniaethau mawr oedd rhyngddynt. Canodd y parti canu, “*Suai'r Gwynt*” ac “*A welsoch chi'r ddau..*.” gan greu naws hyfryd o addoliad. Yn y prynhawn ar yr un Sul hwnnw, cafwyd oedfa o dan arweiniad yr aelodau oedd yn seiliedig ar yr adnod, ‘*Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd. Fe'i gelwir, “Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn, Tad bythol, Tywysog heddychlon*”.’ (Eseia 9). Cymerwyd rhan gan Enfys Harding, Gwenda Lewis, Eleri Williams, Eilir Jones, Ifan Roberts, Eynon Williams a Catrin Wooler. Canodd y parti lleisiol ddwy garol sef, “*Mae'r nos yn fwyn ym Methlehem*” a “*Loywaf o'r sêr*”. Diolch i Helen Thomas am eu dewis a'n hyfforddi. Cyfeiliwyd yn yr oedfa hon gan Catrin Roberts.

Y Sul dilynol (19 Rhagfyr 2022) cafwyd dau ddigwyddiad gwahanol iawn eu natur. Yn y bore cynhaliwyd Llanllanast ar gyfer pob oed yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Daeth criw rhagorol at ei gilydd yn aelodau a theuluoedd newydd i fod yn rhan o’r digwyddiad arbennig hwn. Roedd y fendith yn amlwg ac ysbryd llawen, byrlymus yn llenwi’r lle. Bu’r tîm wrthi yn paratoi ac addurno yn y ganolfan ar y nos Sadwrn fel bod y lleoliad wedi ei harddu yn Nadoligaidd gyda goleuadau ac addurniadau. Diolchwn i Huw a Luned Aaron am baratoi'r holl grefftau, i Alison Jones ac eraill am drefnu lluniaeth blasus. Cafwyd drama fyrfyfyr yn cyflwyno prif ddigwyddiadau stori’r geni o dan arweiniad Catrin Roberts ac actorion o fri yn cymryd rhan. Cyflwynwyd neges fer gan Gwilym Jeffs yn pwysleisio arwyddocâd geni Iesu Mab Duw. Yn ei gariad gwisgodd Dduw gnawd a dod i’n plith er mwyn ein hachub rhag ein camweddau. Bu farw ar y groes trosom er mwyn ein cymodi gyda Duw gan atgyfodi ar y trydydd dydd a choncro marwolaeth. Dim rhyfedd fod yr angel wedi dweud bod ei eni yn “*newyddion da o lawenydd mawr.....*” Braint fawr oedd cael bod yn rhan o Llanllanast. Ar yr un Sul roedd naws pur wahanol am 6.30 yr hwyr yn yr oedfa garolau ddwyieithog gyda’n cyfeillion o’r Eglwys Fethodistaidd ond yr Un oedd testun y mawl. Fe’n croesawyd gan y Parchedig Cathy Gale ac fe gafwyd darlleniadau, carolau ac eitemau gan y ddwy eglwys. Cyfeiliwyd gan Helen Thomas ac Eric Nash.




***'Dolig – Angor:*** Roedd dau gyfarfod Nadoligaidd gan Angor Grangetown. Hyfryd oedd cael croesawu Meilir Geraint, Pontypridd i arwain yr addoliad ar Bnawn Sul 11 Rhagfyr 2022 yng Nghanolfan Reach. Arweiniodd ni mewn mawl gyda chaneuon newydd a charolau traddodiadol. Ef hefyd gyflwynodd y neges am ystyr y Nadolig gan bwysleisio’r angen i bobl ddeall a chredu'r neges fawr sydd ynghlwm wrth eni’r Iesu. Yna ar Nos Iau 15 Rhagfyr 2022 cynhaliwyd noson garolau yn Y Pafiliwn Grangetown, canolfan gyfoes gyda digon o adnoddau ac ystafelloedd i gynnal llu o weithgareddau. Arweiniwyd y canu mawl gan fand o dan arweiniad John Nicholas ac yn eu plith roedd Esyllt a Gruffydd Jones. Paratowyd lluniaeth wedyn gan griw Angor. Diolch i bawb a drefnodd y gweithgareddau hyn.

***Clwb Sêr:*** Mae Clwb Sêr wedi bod yn cyfarfod bob bore Sul yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd ac rydym yn ceisio annog rhagor o deuluoedd i ymuno gyda ni yn gyson. Er, rhaid cyfaddef fod hynny yn dalcen caled ar hyn o bryd. Hoffem eich annog i weddïo dros y gwaith hanfodol hwn ym mywyd eglwys Ebeneser gan ofyn i'r Arglwydd roi ar galon rhieni i ddod a'u plant i ddysgu am Iesu. Diolchwn yn fawr iawn i'r tîm ffyddlon sydd wrthi yn paratoi a dysgu'r plant o fis i fis am eu hymroddiad.

***ODID:*** Y mae astudiaeth Feiblaidd ODID yn parhau i gyfarfod ac o'r diwedd rydym yn mynd o dŷ i dŷ. Rydym wedi bod wrthi bellach er 14 Chwefror 2023. Yn y cyfarfodydd hyn byddwn yn dilyn cyfres gan Tim Keller, "*The Prodigal God: Finding Your Place at the Table.*" Dewch i fod yn rhan o'r drafodaeth.

## Gofalaeth Glannau Ogwr - Tabernacl Porthcawl

Rydym fel eglwys eisiau diolch i'r Cyfundeb am gefnogi ein cais i gyhoeddi dwsin o fyfyrdodau'r diweddar Barchedig Gerwyn Jones.  Ymaelododd Gerwyn a Cathy pan fu iddynt symud i Borthcawl i fyw. Ar y pryd roeddem yn ddi-weinidog ac roedd cefnogaeth Gerwyn i bopeth oedd yn mynd ymlaen yn yr eglwys yn werthfawr iawn i ni.  Pregethodd Gerwyn yn achlysurol, cynhaliodd ein Dosbarth Beiblaidd dros y cyfnod clo, paratôdd fyfyrdodau ar gyfer bob Sul, a hynny yn ddwyieithog, bob wythnos. Ar ôl trafodaeth gyda Dylan, parhaodd i baratoi myfyrdodau am rai misoedd wedi i Dylan ddod yn weinidog ar yr Ofalaeth. Felly, bu wrthi am tua 18 mis i gyd. Golyga hyn ei fod wedi paratoi tua 80 o fyfyrdodau dwyieithog ar ein cyfer.

Ein bwriad yw dangos ein gwerthfawrogiad o waith aruthrol Gerwyn drwy gyflwyno dwsin o'i fyfyrdodau mewn dau lyfryn bach, un yn y Gymraeg ac un Saesneg.  Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth y Cyfundeb i'n helpu i wireddu ein breuddwyd.



***Bore Coffi Dysgwyr:*** Pan oeddem, rai blynyddoedd yn ôl,  yn y paratoi ar gyfer codi arian i ail adeiladu ein neuadd, un o'r syniadau oedd cynnal Bore Coffi i ddysgwyr yr ardal ar y Bore Sadwrn cyntaf ym mhob mis.  Dyna un o'r penderfyniadau gorau wnaethom gan fod y Bore Coffi wedi parhau bob mis yn ddi-ffael, heblaw am y cyfnod clo, ers hynny.  Rydym wedi gwneud ffrindiau newydd ar dros y blynyddoedd mae gwerthfawrogiad y dysgwyr wedi bod yn amlwg.

***Cawl y Grawys:*** Amser cinio ar Ddydd Mercher, 22 Mawrth oedd tro Tabernacl Porthcawl i gynnal Cawl y Grawys. Cawsom groesawu aelodau a ffrindiau i'r achlysur arbennig hwn.

***Apêl DEC Daeargryn Twrci / Gogledd Syria:*** Fel pob eglwys arall y tybiwn, gwnaethom gasgliad arbennig tuag at geisio lleddfu ychydig ar effeithiau'r trychineb erchyll hwn.




***Astudiaeth Feiblaidd:*** Bob Bore Dydd Mawrth rydym yn cynnal ein Dosbarth Beiblaidd. Y tymor hwn, Llyfr y Diarhebion sydd yn cael ein sylw. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n Gweinidog am baratoi mor drylwyr ar ein cyfer.

***Myfyrdod y Mans:*** Dyma gyfle i weddïo, myfyrio a chymdeithasu dros baned yn y Mans yn fisol. Mae Dylan yn dal i arbrofi gydag amseriad y myfyrdod, gan gofio nad yw nifer aelodau'r Ofalaeth yn hapus i ddod allan yn y nos, yn arbennig, dros gyfnod y gaeaf.

***Sul yr Ofalaeth:*** Un o'r penderfyniadau a wnaethpwyd gan y pwyllgor oedd yn trafod sefydlu Gofalaeth ar gyfer galw Gweinidog, oedd penderfynu byddai'r pumed Sul mewn mis, sydd yn digwydd pedair gwaith y flwyddyn, yn Sul yr Ofalaeth. Ar y Sul hwn cynhelir un gwasanaeth, am yn ail, yn y Tabernacl Pen-y-bont a'r tro nesaf yn y Tabernacl Porthcawl. Mae'r syniad wedi gweithio'n dda. Mae'n gyfle i aelodau'r ddwy eglwys ddod i adnabod ei gilydd a chreu teimlad o berthyn i Ofalaeth, yn lle bod yn eglwysi ar wahân. Mae hyn yn wir hefyd am Fyfyrdod y Mans a phob gweithgarwch arall mae Dylan wedi'i drefnu ar y cyd ar gyfer yr Ofalaeth.

## Gofalaeth Glannau Ogwr – Tabernacl, Pen-y-bont



***Stiwdio Ogwr:*** Ym Mhwyllgor Gwaith y Cyfundeb, mis diwethaf dyfarnwyd grant i Eglwys Tabernacl, Pen-y-bont i ddatblygu Stiwdio Ogwr. Prosiect digidol cenhadol newydd yw hwn y mae Dylan yn gweithio arno ar hyn o bryd. Byddwn, maes o law yn gallu creu podlediadau a recordio o'r safon uchaf bosib. Y gobaith yw bydd ieuenctid, aelodau, dysgwyr a'r gymuned ehangach yn gallu defnyddio'r offer a'r stiwdio i greu

rhaglenni amrywiol at ddant pawb. Diolch o galon i’r Cyfundeb am wneud hyn yn bosib gyda’r nawdd.

***Cawl y Grawys:*** Amser cinio ar ddydd Mercher, 8 Mawrth cynhaliodd Tabernacl, Pen-y-bont Cawl y Grawys. Cyfle i fwynhau cawl, cymdeithasu a gweddïo gyda’n gilydd. Da fu cael croesawu aelodau a ffrindiau i’r achlysur arbennig hwn.



## Eglwys Llanfair Penrhys

Mae bywyd yn brysur iawn yn Llanfair - yn ein haddoliad ac yn ein gwaith yn y gymuned. Mae nifer ohonom yn cymeryd tro i arwain yr Ysgol Sul - Anne, Natasha a’i mab Harvey Jay sy’n 10 oed, a finne, ac yn ddiweddar Tyra, sy’n 16 oed, ei chwaer Carly sy’n 12 oed a’u ffrind Maddie, sy’n 15 oed. Mae Harvey a’r merched yn aml yn profi anawsterau yn yr ysgol o ddydd i ddydd, felly mae helpu yn Llanfair yn gyfle arbennig iddyn nhw fagu hyder a hunan les. Maen nhw hefyd yn gwirfoddoli yn ein Clwb Gwaith Cartref, ynghyd a Yasmin sy’n 17 oed, a hithau gydag anawsterau dysgu.



Un o uchafbwyntiau ein hwythnos yw croesawu dosbarth o blant Ysgol Gynradd Penrhys a’u hathrawon ar gyfer ein haddoliad gyda’n gilydd ar Fore Llun. Mae’r plant wrth eu bodd yn cymeryd rhan - yn enwedig y rhai sydd ag anghenion arbennig. Rhannodd un bachgen yn ddiweddar ei weddi o’r galon “*Diolch o Dduw am bopeth i Ti wedi gwneud i mi*”. Ar ôl i’r plant fynd nôl i’r ysgol, mae nifer ohonom fel aelodau o ‘Nurture Group’ Llanfair yn cwrdd ar gyfer Astudiaeth Feiblaidd. Dros yr wythnosau diwetha, rydym wedi cael y fraint o groesawu ein hannwyl ffrind, John Morgans, atom, ac mae ei gyfraniad i’r grŵp yn un gwerthfawr dros ben. John a’i ddiweddar wraig, Norah, sefydlodd y grŵp nifer o flynyddoedd yn ôl.

Mae gwahanol brosiectau Llanfair (e.e. y Clwb Gwaith Cartref, Caffi’r Dydd a C.A.F.E. (*Children and Families Evening*)) yn boblogaidd ac yn bwysicach nag erioed ers i ni ailagor ar ôl y cyfnod clo. Yn anffodus, mae ein Banc Bwyd wedi bod yn brysur iawn ers mis Ionawr gan fod cymaint o unigolion a theuluoedd yn gweld hi’n amser anodd a heriol oherwydd y cynnydd aruthrol

mewn costau bwyd, ynni ac ati. Ni'n ddiolchgar iawn am yr holl roddion o nwyddau ac arian sy'n dod atom oddi wrth ffrindiau o bell ac agos sydd yn ein galluogi i gynnal y Banc Bwyd a'r Banc Dillad a Dodrefn.



Ers mis Hydref, rydym wedi bod yn cynnal Bore Coffi 'Mannau Cynnes' yn y Lolfa ar Fore Gwener (pan fod y caffi ar gau) gyda nifer o bobl yn dod ynghyd i fwynhau dishgled o de neu goffi, tost a chwmni mewn ystafell gynnes a chyffyrddus. Ein gwirfoddolwr newydd lleol, Jan, sy'n gyfrifol am y Bore Coffi, ac mae hyn yn bwysig iddi hi gan i'w gŵr farw y llynedd ar ôl salwch hir a hithau wedi bod yn gofalu amdano.

Mae sawl gweithgaredd llwyddiannus wedi dechrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy'r prosiect Celfyddydol, 'Tu Hwnt i'r Gofyn', – yn arbennig Grŵp Rhiant a Phlentyn ar fore dydd Iau ac yna Grŵp Pilates. Yn ddiweddar, mae dau riant sy'n byw yn Tonypandy wedi sefydlu Grŵp yn Lolfa Llanfair ar ôl ysgol ar ddydd Mawrth er mwyn cefnogi a chroesawu plant sydd ag anghenion arbennig a'u teuluoedd.



Ers rhai wythnosau, mae gennym 'ymwelwr' sydd wedi dod ar ei wyliau i'r Capel, sef Peri, y pererin - pyped deg troedfedd a grëwyd gan Victoria Lowry i nodi Ffordd Pererindod Penrhys sy'n dechrau yng Nghadeirlan Llandaf. Cyn iddo gyrraedd, roedd Peri am gyfnod yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Mae e'n edrych yn gartrefol iawn gyda ni yn Llanfair!

## Eglwys Minny Street

Dros dymor yr Adfent cafwyd oedfaon amrywiol a bendithiol i'n harwain at ddathlu geni ein Harglwydd fore'r Nadolig yng nghwmni cyfeillion o Eglwys Bresbyteraidd y Crwys.  Dros yr Adfent hefyd bu cyfle i ddilyn ein Calendr Adfent Tu Chwith gan roi eitem benodol ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd mewn bocs bob dydd ac yna, ar Noswyl Nadolig, trosglwyddo'r cyfan i




flychau yn y Festri er mwyn eu trosglwyddo i'r Banc Bwyd. Gyda chynifer o'r aelodau wedi dewis bod yn rhan o'r cynllun, roedd y blychau pwrpasol yn y Festri dipyn rhy fach i dderbyn yr holl roddion a rhaid bu nodi darn o'r llawr ar gyfer y nwyddau! Bu ein Coeden Cyfarchion yn fodd i gyflwyno cyfarchion i gyd-aelodau gan gyfrannu tuag at Gymorth Cristnogol yn hytrach na gwario ar gardiau a stampiau a bu ein plant a'n pobl ifanc yn hael eu cyfraniadau i Boomerang er mwyn ceisio sicrhau fod gan blant sydd yn byw mewn tlodi o leiaf un anrheg i'w agor fore Nadolig.



Erbyn hyn mae calendr yr eglwys yn ôl i brysurdeb cyn-Covid gyda dychweliad nifer o gyfarfodydd cyfarwydd ac ymddangosiad ambell i gyfarfod newydd. Hyfryd oedd cael dychwelyd i Eglwys Teilo Sant yn Sain Ffagan ar gyfer Dathlu'r Plygain ym mis Ionawr ac mae ein Koinônia hwyrol misol yn gyfle i fwynhau cymdeithas dros bryd o fwyd wedi'r Oedfa Hwyrol. Mae'r Gymdeithas Ddiwylliannol, sydd wedi sicrhau rhaglen amrywiol a safonol dros dymor yr Hydref a'r Gaeaf, yn cyfarfod bob yn ail wythnos ar nos Fawrth ac ar yn ail â'r Gymdeithas, mae'r gyfres Astudiaethau Beiblaidd, Bethania, yn cyfarfod yng nghartref aelodau. Efengyl Luc sydd yn cael sylw Bethania y tymor hwn. Cynhelir nifer o gyfarfodydd misol gan gynnwys cyfres sy'n canolbwyntio ar Sant gwahanol bob mis (Ciniawa gyda'r Saint), cyfle i weld a thrafod ffilm mewn Noson Ffilm, a chyfle am Goffi a Chlonc (neu'r amrywiad Sŵp a Sgwrs) yng nghartref aelod. Bu cyfle i baratoi ar gyfer y Grawys mewn defosiwn tawel ar nos Fercher y Lludw a nodwyd dydd Gŵyl ein Nawddsant mewn defosiwn a chawl.



Drwy gyfrwng ein stondin misol, mae cyfle i ni sicrhau ein bod yn prynu a defnyddio nwyddau Masnach Deg, a derbynnir nwyddau ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd yn rheolaidd. Bu casgliadau rhydd Suliau mis Chwefror yn gyfle i gyfrannu tuag at Apêl

Daeargryn Twrci-Syria a chafwyd noson o fwynhau wrth i ni gael ein diddanu gan PEDAIR ddechrau'r mis gyda'r elw oll yn mynd tuag at elusennau lleol a gefnogir gennym fel eglwys.

## Tabernacl, Efail Isaf

***Casgliadau Nadolig:*** Am gyfnod o chwe wythnos o ddechrau mis Tachwedd tan ganol Rhagfyr, bu aelodau'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn ddiwyd iawn yn trefnu cyfres o 'Gasgliadau Nadolig' i geisio dod ag ychydig o lawenydd i fywydau pobl sy'n wynebu anawsterau a chyni. Gwahoddwyd yr aelodau a chyfeillion i gyfrannu danteithion Nadolig a nwyddau hylendid i famau a phlant fyddai'n treulio'r Nadolig mewn llochesi Cymorth i Ferched Cymru, a phobl o bob oed oedd heb gartref parhaol. Trefnwyd i wneud casgliad ariannol er mwyn goleuo ychydig ar fywydau pobl ifanc sy'n gadael gofal a rhai fyddai'n treulio'r Nadolig mewn hosteli i'r digartref, a rhoddwyd swm o arian i bum hostel i ddarparu lluniaeth Nadoligaidd i'w trigolion. Diolch i haelioni'r aelodau, bu'r ymgyrchoedd yn llwyddiant ysgubol a chyda chymorth mintai o wirfoddolwyr llwyddwyd i ddidoli, pacio a dosbarthu'r danteithion a'r nwyddau hylendid mewn da bryd cyn y Nadolig.



Gyda chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol rhannwyd gwerth £1,000 o dalebau i bobl ifanc sy'n gadael gofal, ac i hosteli pobl ddigartref, i'w helpu i gael ychydig o naws y Nadolig. Yn y cyfamser mae gweithgareddau dyngarol eraill y Tabernacl megis casglu a dosbarthu nwyddau i rai sy'n symud i'w cartref eu hunain am y tro cyntaf, cefnogi'r banciau bwyd ac elusennau lleol yn parhau.




***Y Twmiaid a'r Twmiaid Bach:*** Nid y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol oedd yr unig rai fu'n brysur iawn dros fisoedd Tachwedd a Rhagfyr. Dan arweiniad ysbrydoledig Eleri Mai, llwyddwyd i gynnal amrywiaeth eang o weithgareddau gyda'r Twmiaid yn chwarae rôl ganolog ynddynt. Ar ddechrau Tachwedd bu'n rhaid i'r bobl ifanc dorchi llewys i ddyfeisio a chyflwyno 'Cwis Cwpan y Byd' – tasg ddigon heriol o weld pa mor gystadleuol oedd ambell un o'r rhai hŷn! Rhyddhad

yw adrodd na fu’n rhaid dangos cerdyn coch a bod pawb wedi mwynhau noson gymdeithasol gynnes oedd yn pontio sawl cenhedlaeth yn y Tabernacl. Hefyd yn ystod mis Tachwedd, bu’r Twmiaid a’r Twmiaid Bach wrthi’n brysur yn eu sesiynau pnawn Sul yn creu eitemau amrywiol i’w gwerthu ar eu stondin grefftau yn Ffair Pentref Efail Isaf. Profodd ffrwyth eu llafur yn un o stondinau mwyaf lliwgar y ffair. Cyn cael cyfle i gael eu gwynt atynt wedi’r ffair roedd her newydd yn eu hwynebu, sef y gystadleuaeth *Bake Off* Nadoligaidd. Awgryma’r lluniau niferus o’r danteithion deniadol a ddangoswyd ar dudalen Facebook y Tabernacl fod yma griw talentog iawn allai fod yn ymgeiswyr y *Bake Off* go iawn mewn fawr o dro.



***Oedfaon Nadolig:*** Tro plant yr Ysgol Sul, ynghyd â’r Twmiaid, oedd serennu yn y Gwasanaeth Nadolig Fore Sul 18 Rhagfyr 2022. Wedi’r hirlwm dros gyfnod y pandemig, hyfryd oedd gweld y Tabernacl dan ei sang i weld y plant ieuengaf o blith disgyblion yr Ysgol Sul yn camu i’r llwyfan i gyflwyno’r stori geni gyfarwydd. Chawsom ni mo’n siomi wrth weld a chlywed y bugeiliaid, yr angylion a’r doethion yn llenwi’r llwyfan a pherfformio’r hanes mor raenus mewn gair a chân. Yn ail hanner yr oedfa, tro’r Twmiaid oedd hi i gyflwyno stori geni amgen oedd yn fwy cyfoes ac ysgafnach ei naws, megis y rapwyr o angylion oedd yn gwisgo crysau-T a sbectol haul, a chymeriadau eraill oedd yn meddwl mai’r pentref o’r enw Bethlehem yn Sir Gâr oedd man geni’r Iesu. Ar ddiwedd yr oedfa, talwyd diolch gan Eleri Jones i’r plant a’r bobl ifanc, y rhieni a’r athrawon am eu holl waith paratoi ac am gyflwyno neges y Nadolig mor effeithiol a chyfoes.

***Carolau Noswyl Nadolig:*** Am y tro cyntaf ers y pandemig, cynhaliwyd yr oedfa ddwyieithog gymunedol draddodiadol ar noswyl Nadolig. Bu cryn drafod pa amser fyddai orau – rhai am lynu at yr hen arferiad o ddechrau am 11 y nos ac eraill am ei symud i 5.30. Yn y diwedd, cytunwyd i arbrofi drwy ei chynnal yn gynharach y tro hwn, a gweld beth fyddai’r ymateb. Arweiniwyd y noson yn ddeheuig iawn gan Eluned Davies Scott a Lyn West a chafwyd cyfraniadau cerddorol gan nifer o bartïon. Braf oedd deall yn ddiweddarach i’r newid amser dderbyn croeso brwd gan bawb. Roedd rhai wedi llwyddo i fynychu’r cwrdd am y tro cyntaf gan fod yr amser yn fwy cyfleus, a hyfryd hefyd oedd gweld llawer o blant a phobl ifanc ymhlith y gynulleidfa a’r perfformwyr. Daethpwyd i’r casgliad i’r arbrawf brofi’n llwyddiant ymhlith aelodau’r Tabernacl a’r gymuned ehangach oedd yn bresennol i fwynhau’r arlwy cerddorol graenus gan osod naws priodol i ddathlu’r Ŵyl.

***Bwrdd y Cyfarwyddwyr:*** Yn 2007 penderfynwyd newid statws yr eglwys i fod yn gwmni elusennol cofrestredig, a sefydlwyd Bwrdd o Gyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr fel pwyllgor rheoli, gan hepgor y drefn o ethol diaconiaid. Roedd hwn yn gam mentrus iawn ac yn torri tir newydd ymhlith capeli Cymraeg yn arbennig. Mae'r cyfansoddiad newydd yn datgan bod gofyn i'r cyfarwyddwyr ymddiswyddo ar ddiwedd tymor o dair blynedd, a dyna pam y ffarweliwyd â phum aelod roedd eu tymor yn dod i ben yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ddiwedd Tachwedd. Diolchwyd iddynt am eu gwasanaeth i'r eglwys a rhoddwyd croeso cynnes i'r pump a enwebwyd i'w holynu, sef Elwyn Hughes, Aled Humphreys, Siân Jones, Non Morris a Bethan Reynolds. Diddorol yw sylwi bod yn agos i 70 (c. 40%) o aelodau'r eglwys bellach wedi gwasanaethu ar y Bwrdd am dymor o dair blynedd o leiaf unwaith dros y pymtheng mlynedd diwethaf.

**Cyfraniadau gan:** Alwena Harries; Gwilym Huws; Bethan Jones; Rhodri-Gwynn Jones; Gwenda Lewis; Dylan Rhys Parry; Tom Price; Sharon Rees; Alun Tudur.